

Papur Pawb

Pris: 50c

Rhagfyr 2020

Rhif 464

tud 4/5

Ysgol Tal-y-bont

tud 6

Dringo Everest!

tud 9

Dan Do

tud 12

Chwaraeon




Dathlu 'Dolig 2020

Mae'r Nadolig a'r flwyddyn newydd bob amser yn rhoi cyfle i ni fyfrio ar y flwyddyn a aeth heibio. Wel am flwyddyn fu 2020 i ni gyd. Bu erioed gyfnod tebyg a'r angen i lawenhau a chyd ddathlu yn amlwg ac yn wir mae trigolion Tal-y-bont wedi ymgymryd â'r her o godi calonnau pawb gydag arddeliad.

Un o'r syniadau gwerth chweil hynny oedd y syniad o greu calendr adfent yn y pentref a fyddai'n lliwgar, yn dal sylw'r plant ac yn rhoi gwên ar wyneb pawb yn ystod yr wythnosau yn arwain i fyny at y Nadolig. Mae pob cartref sy'n rhan o'r cynllun yn addurno ffenest sy'n cael ei ddatgelu ar ddyddiad neilltuol ac a fydd wedi eu goleuo o 5yh tan 10yh bob nos tan y Nadolig, a thu hwnt.

Mae'r arddangosfeydd hyd yma wedi bod yn wledd i'r llygad a phlant bach a 'mawr' yr ardal wedi eu cyffroi yn fawr wrth edrych ymlaen at y datgelu dyddiol mewn gwahanol rannau o'r pentref. Gwelir ar y map y lleoliadau sy'n rhan o'r cynllun ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld yr arddangosfeydd sydd eto i ddod. Braf hefyd ydy gweld coeden Nadolig wedi ei gosod ar y patshyn glas am y tro cyntaf erioed gan ychwanegu at greu naws arbennig i'r wyl eleni. Mae'n profi yn fwy nag erioed nad



oes angen mynd yn bell o adref i ddathlu a mwynhau.

Heb amheuaeth fe fydd cyfnod yr Adfent eleni a'r dathliadau dros y Nadolig yn dra gwahanol i'r hyn yr ydym yn gyfarwydd ag e'. I nifer, yr hyn sy'n gwneud y

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwychweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
832566

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysggrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn
hwn oedd Rhian a Catrin,
gyda Ceri'n dylunio.

Diolch iddynt.

Gwyn a Fal
(golygydd@papurpawb.com)
fydd yn golygu'r rhifyn
nesaf.

Y dyddiad cau yw 1 Ionawr
a bydd y papur ar werth ar
8 Ionawr.

Dyddiadur

RHAGFYR

13 Bethel 10 Gwilym Tudur
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30
Gwasanaeth Boreol

25 Bethel Gwasanaeth Bore
Nadolig 10 Geraint Evans

IONAWR

10 Bethel 10 Gwilym Tudur

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Contract Torri Gwair 2021 i 2024

Gwahoddir datganiadau o
ddiddordeb yn y contract torri
gwair ar ran y Cyngor Cymuned
ar dir cymunedol sydd yn eiddo
i'r Cyngor. Mae'r contract yn
cynnwys Mynwent Tal-y-bont,
Cae Bach Tal-y-bont,
Cae Chwarae Bontgoch a'r
Patshyn Glas.

Cysylltwch gyda Chlerc y
Cyngor am ragor o fanylion.

Mr Rab Jones
Clerc Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr
Erw Deg, Glantwymyn
Machynlleth
SY20 8LD

rab.jones@btinternet.com

Ar Werth

Bocs cryf tu ôl i dractor, maint
160cm + 90cm + 90cm, cyflwr
fel newydd.
Pris £350.

Am fanylion pellach ffoniwch
01654 781264

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674



Coed Llws Duon

Cadw'r Hen Enwau Ymlaen

Bob mis rwy'n edrych ymlaen i weld Papur Pawb ac yn ei ddarllen bob
gair. Hoffwn ychwanegu gwybodaeth i adroddiad Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr yn rhifyn mis Hydref, fod mainc newydd wedi cael ei
gosod ar y ffordd gefn o dan goedwig Allt y Crib. Mae coed Allt y Crib
yn ymestyn o fferm Frongoch, ger Glanfred ac yn gorffen wrth y tŷ
uchaf yn Nhan y Coed, yn syth fyny i gornel Tŷ Hen. Coed Llws Duon
yw enw'r coed o Dan y Coed i Frondirion.

Lewis Morris, Glenydd oedd berchen Allt y Crib a gwerthodd y coed
i'r Comisiwn Coedwigaeth amser y rhyfel. Rhan o stâd Tomi Annwyl
oedd Coed Llws Duon, a gwerthodd ef y lle adeg y rhyfel i'r Comisiwn
hefyd. Roedd coed derw bendigedig yn tyfu yno, a llus duon ardddechog
yn tyfu o un pen i'r llall. Torrodd y Comisiwn y coed derw i lawr a
phlannu coed gleision yn eu lle. Lladdwyd y llus duon yn llwyr, colled
aruthrol i wragedd a phlant y pentre. Mae'r hen bobol yn dal i alw y coed
yma yn Goed Llws Duon.

Enw y fangre hon lle cafodd y fainc ei rhoi yw Ger Siafft y Winsi.
Roedd ffens o haearn cryf o amgylch y siafft a weiren yn groes i'w thop.
Llenwyd y siafft gan y comisiwn i wneud ffordd trwy ganol y coed.
Ychydig nes lan na'r siafft 'roedd carreg enfawr, Y Garreg Ateb. 'Roedd
plant fu yn yr hen ysgol yn gwybod yn iawn lle 'roeddent. Mae'n bwysig
ein bod yn cadw'r hen enwau ymlaen.

Gwilym Jenkins



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda!

Nid ydym yn anfon cardiau
eleni ond mi fyddwn yn rhoi
cyfraniad at Gymorth
Cristnogol.
Gwilym ac Ann Jenkins,
Llety'r Bugail

Mae Eleri a Gwilym,
Meisgyn, yn dymuno
Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'w
holl ffrindiau yn ardal
Papur Pawb.
Pob dymuniad da!



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Newyddion trist

Wrth i'r papur fynd i'r wasg cawsom y newyddion trist fod Mrs Kathleen Richards, Y Bryn, Tal-y-bont, wedi'n gadael. Cydymdeimlwn yn fawr â'i theulu a'i chyfeillion niferus. Bydd teyrnged iddi yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ceri a Chris Chaudhuri ar enedigaeth eu merch Liwsi Ema chwaer fach i Soffia a wyres arall i Betty ac Erfyl Foulkes, Taliesin.

Ffarwél a phob lwc

Pob dymuniad da i Pamela Marsden, Bryn Derw, Taliesin sydd wedi symud i fyw i'w hen gartref teuluol yn Helsby, Cilgwri. Mae Pamela wedi bod yn gymdogaes a ffrind da a ffyddlon i lawer ohonon ni ac wedi gwirfoddoli yn y Cletwr ers y dechrau. Byddwn ni'n gweld ei heisiau'n arw. Pob lwc efo'r swydd newydd Pamela a'r bennod nesa 'ma yn dy fywyd.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Iorwerth Jones, Brynamor, Taliesin sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bronglais a bellach yn derbyn gofal yn Ysbyty Tregaron.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Paul a Christine Jenkins, Bwthyn y Fron, Tal-y-bont, ar ddod yn Nain a Thaid unwaith eto. Mae Glyn a Jonelle, sy'n byw yn Seland Newydd, wedi cael bachgen bach, Tarran Jenkins.

Llongyfarchiadau hefyd i Caron Pugh a Gavin Pugh ar enedigaeth merch fach Ela Câte, chwaer fach i Efa Wyn.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Dylan Hopkin, Dyffryn, Tal-y-bont a Samantha McAleer ar eu dyweddian yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Cath Williams, Maes y Deri â'i phlant Wendy a Barry a'r wyrion, ar golli eu mam, mam-gu a hen fam-gu yn ddiweddar.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Katie Thomas, 5 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Ciosg Coch Cwmere wedi mynd!

Dirgelwch Ciosg Cwmere

Yn gynharach eleni bu ymgynghoriad ar ddyfodol blwch ffôn Cwmere ac yn sgil y problemau gyda defnyddio ffôn symudol yn yr ardal cytunodd Cyngor

Cymuned Ceulanamaesmawr i gefnogi ymdrechion y trigolion lleol i'w hatgyweirio. Bu'r ymdrech yn llwyddiannus ac fe gytunwyd i'r cais i gadw'r blwch ffôn.

Serch hynny, cafwyd cryn dipyn o sioc yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Cyngor o ddeall bod blwch ffôn Cwmere wedi diflannu. Tynnwyd sylw Adran Gynllunio, Cyngor Sir Ceredigion yn syth at y mater gan mai nhw oedd yn cydlynu a rheoli'r rhestr o flychau ffôn o fewn y sir ac yn cyfathrebu'n uniongyrchol gyda BT ar y mater. Cadarnhawyd nad oedd blwch ffôn Cwmere ar y rhestr o'r rhai oedd i'w gwaredu ac y byddai'r Cyngor yn gwneud ymholiadau pellach er mwyn cadarnhau beth sydd wedi digwydd.

Deallir bod y blwch ffôn wedi diflannu un min nos tua 6.30 o'r gloch ddiwedd mis Tachwedd a gan fod contractwyr BT yn yr ardal yn ystod yr un wythnos mae'n debygol iawn mai trwy gamgymeriad y mae'r blwch ffôn wedi diflannu. Er hynny, nes y daw cadarnhad, dydy hi ddim yn amhosibl fod y ciosg wedi cael ei ladrata. Os oes gyda chi unrhyw fanylion pellach yna cysylltwch gyda chlerc y Cyngor Bro ar rab.jones@btinternet.com Mae croes er cof am y blwch ffôn wedi ymddangos yn dilyn hynny.

CFfi Tal-y-bont

Yn dilyn gorfod dod â gweithgareddau CFfi i ben yn gynnar ym mis Mawrth, braf oedd ail ymgynnull yn rhithiol dros Zoom ar ddechrau tymor newydd. Gan na fu cyfle iddynt orffen eu blwyddyn fel swyddogion, mae Richard John yn parhau fel Cadeirydd, Teleri Morgan yn Ysgrifenyddes, a Catrin Davies yn Drysorydd.

Ein bwriad yw cwrrdd bob pythefnos dros y cyfrifiadur gan na fydd yn bosib i ni gyfarfod wyneb yn wyneb ac mae rhaglen ddifys iawn wedi cael ei threfnu. Gweithgaredd cyntaf y tymor oedd cwis yng ngofal barcud Sera a Sara a chafwyd llawer o hwyl yn ceisio ateb llun o gwestiynau. Llongyfarchiadau mawr i Llio, Coimhe, Elen, Nannon a Luned a ddaeth i'r brig a diolch i'r cwisfeistri meistrolgar am drefnu!

Ail weithgaredd y tymor oedd Gŵyl Ffilmiau WiFi CFfi Tal-y-bont wedi ei drefnu gan Sion Pennant. Roedd nifer o gategoriâu yn cynnwys ffilm fer, miwsicals, ffotograffiaeth, ffilm ddogfen, natur, categori agored ac animeiddio. Treuliwyd noson ddifys yn gwyllo'r clipiau fideo a chael ambell gyngor am ffilmio ac animeiddio gan Siôn. Diolch iddo am drefnu'r Wyl.

Bydd noson olaf y tymor yn noson Nadoligaidd nos Fawrth 15 Rhagfyr yng ngofal Mair Nutting ac mae croeso mawr i aelodau newydd, cysylltwch gyda Teleri os am ymuno!

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn CFfi Tal-y-bont!

Marwolaeth

Afonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Avril Bond, Bryndaf, Tre Taliesin, a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei mab, Dai, yn ddiweddar. (Bydd gwerthfawrogiad o'i fywyd ym Mhapur Pawb mis Ionawr).

Pen blwydd Hapus

Dymuniadau gorau i Aled Lewis, Dôl Felyn, Craig y Penrhyn, Tre'r Ddôl a Dyfed Evans, Glanrafon, Tal-y-bont ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Evan a Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont a'r teulu ar golli chwaer Evan sef Mair Jenkins, Erwego, Waunfawr a Phwllpridd, Lledrod gynt yn ddiweddar.

Newid Aelwyd

Dymuniadau gorau i Siân Inman a'r teulu, Bwthyn Rhosyn Gwyllt, Bont-goch yn eu cartref newydd ym Mhenparcau.

HakaDref – Ymlaen â'r gân

Gyda pherfformiadau byw o flaen cynulleidfya yn ein theatrau yn amhosib ar hyn o bryd, braf oedd gweld cwmni Haka Entertainment a Chanolfan y Celfyddydau yn gweithio ar y cyd i gynnal dau gyngerdd wedi'u ffrydio'n fyw i'ch cartref o Theatr y Werin, Aberystwyth ddechrau'r mis. Gwell fyth ar y 3 Rhagfyr oedd gweld Rhys Meirion yn perfformio gyda dau o dalentau ifanc gwyh yr ardal sef Sam Ebenezer a Heledd Davies o Dal-y-bont.

Wyres fach

Cyrhaeddodd anrheg Nadolig cynnar gwerth chweil i Emma a Kevin O'Brian, Cytringhan, Tal-y-bont pan aned wyres fach iddynt ar 5 Rhagfyr. Ganed Eliza Lili Campbell yn ysbyty Bronglais, merch gyntaf anedig Niamh a Ben yn pwyso 6 phwys ac 11 owns! Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Marwolaeth

Trist iawn cofnodi marwolaeth Fred Haynes, Y Bwthyn, Tre Taliesin yn ddiweddar. Estynnir cydymdeimlad at Anwen a gweddill y teulu.

parhad o tud 1

Dathlu 'Dolig 2020

cyfnod hwn yn un mor arbennig ydy edrych ymlaen at y digwyddiadau a'r traddodiadau yna sy'n cael eu hailadrodd yn flynyddol yn ddi-ffael. O Ffair y Neuadd i Gyngerdd Nadolig yr Ysgol rydym yn brysur mewn bwrlwm o gymdeithasu. Er bod y wynebâu yn newid o flwyddyn i flwyddyn yr un ydy'r fformiwla bod tro – y gymuned gyfan yn dod ynghyd i drefnu a dathlu gyda'n gilydd.

Mae Nadolig 2020 yn gorfod bod mor wahanol, heb y partïon gwaith a'r dathlu gyda ffrindiau, ond eto, fel mae gweithgarwch calendar yr adfent wedi dangos mae modd addasu a chreu traddodiadau o'r newydd wrth fod yn greadigol. Mae'r ysfa yna i ddod at ein gilydd fel cymuned yn parhau yn gryf iawn yn Nhal-y-bont a'r cylch. Yr ymdeimlad yna o berthyn sydd mor allweddol i gynnal cymdeithas fywiog a ffyniannus trwy'r cyfnodau gorau a'r cyfnodau heriol fel yr ydym yn profi ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau i holl ddarlennwyr Papur Pawb dros yr ŵyl ac fel yr ydym yn cael ein hatgoffa'n aml, 'Daw eto haul ar fryn' gobeithio yn 2021.



Ysgol Tal-y-bont



Ysgol ECO



SUSTRANS



Sbectrwm



Diwrnod Plant Mewn Angen

Ysgol Tal-y-bont

YSGOL IACH

Wythnos Gwrth-fwlio

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Wythnos Gwrth-fwlio fe ddaeth y plant a'r staff i'r ysgol yn gwisgo sanau od, sanau oedd ddim yn perthyn i'w gilydd. Diolch yn fawr i bawb am gymryd rhan i godi ymwybyddiaeth o'r neges bwysig yma. Trefnwyd gwersi arbennig er mwyn trafod y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio a pha mor bwysig ydy hi i fod yn garedig wrth bawb. Roedd hi'n ddoniol iawn i weld yr ymdrechion.

Sbectrwm

Yn ystod y mis yma cafwyd ymweliadau arbennig dros y we gan Meri a'i ffrind arbennig Ted ar ran Asiantaeth Sbectrwm. Mae Sbectrwm yn brosiect sydd ar waith mewn ysgolion cynradd ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth plant am gadw'n ddiogel ac am ofyn am gymorth os ydynt yn pryderu am rywbeth. Mi fydd yr ysgol yn parhau i gydweithio gyda Sbectrwm dros yr wythnosau nesaf i barhau gyda'r gwaith da.

SUSTRANS

Yn dilyn yr erthygl ar y dudalen flaen y mis diwethaf, bu plant y Cyfnod Sylfaen yn gwneud arolwg o faint o drafnidiaeth sy'n gyrru heibio'r ysgol yn ystod y dydd. Roedd yn ddiddorol iawn gweld cymaint o wahanol fathau o gerbydau aeth heibio. Roedd yr arolwg yn rhan o weithgareddau ehangach yr ysgol i hybu teithio diogel a chynaliadwy i'r ysgol mewn partneriaeth efo SUSTRANS Cymru.

Ysgol ECO

Gyda'r Nadolig yn agosáu, penderfynodd plant y Dosbarth Derbyn roi anrheg cynnar i'r adar sy'n ymweld â ni yn yr ardd. Gyda'r dyddiau'n oeri ac yn byrhau, mae'r adar bach yn ei chael yn fwy anodd dod o hyd i fwyd. Mae'n siŵr y byddant wrth eu boddau'n gwledda ar y braster i gynnal tymheredd y corff dros fisoedd y gaeaf. Diolch yn fawr i Mrs Nemes am drefnu'r weithgaredd, roedd y plant wrth eu boddau.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo dillad ffansi i'r ysgol ar ddiwrnod plant mewn angen. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn gyda llawer o frwdfrydedd tuag at ddysgu mwy am yr elusen. Diolch i bawb am gyfrannu mor hael. Codwyd dros £150 tuag at yr achos da eleni.

Fydd ddim cyfle i ddymuno'n dda i bawb yn gyhoeddus eleni, felly Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2020/21

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau lleol. Dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau, nifer y bobl byddai'n elwa, a manylion unrhyw brosiect arbennig (os yn gymwys). Ni all y Cyngor ystyried unrhyw gais heb gopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Dylid danfon ceisiadau at:
Mr Rab Jones, Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
Erw Deg, Glantwymyn, Machynlleth SY20 8LD

rab.jones@btinternet.com
Dyddiad cau: Dydd Iau, 17 Ionawr 2021

Sefydlu Cangen

Cynhaliwyd cyfarfodydd ZOOM yn ddiweddar er mwyn ffurfio cangen newydd o YesCymru yn yr ardal hon.

Mae mudiad YesCymru, sy'n ymgyrchu dros annibyniaeth i Gymru, wedi gweld cynnydd aruthrol yn ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Mae iddo 15,000 o aelodau yng Nghymru erbyn hyn ac mae oddeutu 150 ohonynt yn byw yn y dalgylch rhwng Machynlleth ac Aberystwyth.


Er bod canghennau llewyrchus ym Mach ac Aber, roedd gwir angen ffurfio cangen newydd i wasanaethu'r ardal rhwng y ddwy dref. Ar un adeg bwriadwyd sefydlu cangen o'r enw Tal-y-bont ond gan fod nifer o aelodau yn dod o bentrefi eraill, penderfynwyd y byddai Cangen Gogledd Ceredigion yn enw mwy addas.

Ysgrifennydd y cangen am y tro yw Laura Hiscox, Tal-y-bont, ac mae modd dilyn y datblygiadau drwy'r cyfrif trydar @YesGogleddCered.

Bydd y sesiwn baneri gyntaf gan y cangen newydd yn cael ei chynnal yn Rhydypennau, Bow Street, ar fore Sadwrn 9 Ionawr am 10.00, felly mae'r cangen yn gofyn i'r holl aelodau ddod draw i chwifio baner, gan gofio gwisgo mwgwd a chadw pellter cymdeithasol.

BroAber 360

Helo bawb, gobeithio da chi gyd yn cadw'n iawn. Mae wedi bod yn fis prysur ar eich gwefan fro, ond mewn ffordd fach wahanol i'r arfer. Da ni'n falch iawn o ddweud fod Y Farchnad bellach yn fyw, yr unig le i chi weld busnesau bach ardal Aberystwyth mewn un man - gallwch weld y busnesau ar www.broaber360.cymru/marchnad www.broaber360.cymru/marchnad. O ran straeon, mae amryw o rai da di bod mis yma - o hanes Gwenallt ym Mhenparcau i'r effaith mae Cofid yn cael ar eglwys leol, i fideo am wiwerod coedwigoedd Aberystwyth! Nadolig Llawen i chi gyd - Dan.

 HUW LEWIS  M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiadi Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	 TEIARS HUW LEWIS  TYRES
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gws £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com



Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion

Daeth deg o wahanol ffermydd o Ogledd Ceredigion ynghyd i anfon ŵyn hyrddod i ffwrdd i'w gaeafu, mewn arbrawf gyda'r Gymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion. Eleni, rydym yn ffodus eu bod yn cael mynd i Fferm Gogerddan (IBERS) yn Penrhyncoch. Cafodd yr ŵyn eu beirniadu cyn mynd, i ddewis yr oen mwyaf addawol. Daeth dau oen i'r brig – ŵyn Teulu Tanrallt, Tal-y-bont a Theulu Ceiro, Ponterwyd yn dod yn gyfartal gyntaf. Noddwyd yr arbrawf gan Gwmni 'Rogers & Taylor' unwaith eto. Rydym fel Cymdeithas yn ddiolchgar iawn i'r Cwmni.

Merched y Wawr

Er nad ydym yn cyfarfod wyneb yn wyneb ar hyn o bryd, cafodd aelodau'r gangen ac yn wir aelodau Ceredigion a Llundain o Ferched y Wawr ddau gyfarfod rhithiol yn ddiweddar. Cyfle i siopa nadolig gyda rhai o gynhyrchwyr bwyd y sir a drefnwyd ar 26 Tachwedd ac yna Hosan Nadolig o grefftwyr, cwmnïau Cymreig megis *The Good Wash Company* a siopwyr a gafwyd ar 3 Rhagfyr – gyda llawer o syniadau am anrhegion nadolig ac ar yr un pryd cefnogi busnesau yng Nghymru. Diolch i swyddogion y sir am drefnu'r ddwy noson fuddiol a ddiddorol.

Hoffai'r gangen ddymuno Nadolig Llawn i chi i gyd.

Troedio'n Ofalus

Mae Cyngor Ceredigion mewn cydweithrediad gyda'r elusen Sustrans Cymru yn holi barn preswylwyr ynglŷn â gwneud gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio'r sir fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

Cynllun o lwybrau yw'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol, a bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i benderfynu ymhle y dylid gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth cerdded a beicio o fewn y sir. Y nod yw sicrhau bod teithiau ar droed neu ar feic yn fwy diogel i bawb, yn enwedig i'r rhai sydd ddim yn cerdded neu'n beicio'n aml a phobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a sgwteri.

Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar dair tref yng Ngheredigion a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru, sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan mae'n gyfle da i ni drigolion Papur Pawb ddwyn sylw at faterion o fewn ein hardal ni hefyd. Mae sefyllfa trafnidiaeth yn Nhal-y-bont ac ym mhentrefi gogledd y sir yn fater o bryder ers nifer o flynyddoedd a sylw diweddar wedi bod at y sefyllfa beryglus ar y ffordd tu allan i Ysgol Tal-y-bont.

Er mwyn dylunio rhwydwaith sy'n gweithio i bawb, mae'r cyngor yn awyddus i gael barn cynifer o bobl â phosibl, er mwyn sicrhau bod y llwybrau yn gweithio i'r gymuned gyfan. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae modd rhannu eich barn fan hyn: <https://ceredigion.commonplace.is/about#> ac mae modd cyfrannu hyd at Ionawr 4, 2021.



Tyrone yn Norwy yn 2019

Dringo Everest!

Mae Tyrone Joule, o Faes Cletwr, Tre'r Ddôl am ddringo Everest! Wel, hyd Base Camp o leiaf!

Mae Tyrone, sydd wedi byw yn Nhref'r Ddôl ers dros 5 blynedd, ac yn fab i Karen Evans, Rheolwr Cletwr, bellach yn gweithio yn y Co-op ym Machynlleth fel Rheolwr dan hyfforddiant. Mae e a thri o'i gydweithwyr ym Machynlleth ynghyd â grŵp o staff siopau Co-op eraill, yn bwriadu teithio i Nepal ym mis Mai, am daith gerdded 17 diwrnod (130km) i Base Camp ar Everest (5600m/dros 18,700 troedfedd yn uwch na lefel y môr).

Maen nhw i gyd yn gwneud hyn i godi arian at elusennau. Rhaid i bob un ohonyn nhw godi o leiaf £5000, ac mae Tyrone wedi penderfynu cefnogi'r elusen MIND, sy'n ymgyrchu dros iechyd meddwl.

Dyweddodd Tyrone, "Mae effaith COVID-19 wedi bod yn ddinistriol ac yn amlwg mae ar flaen meddyliau pawb ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ystyried y cyfle, roeddw'n i'n meddwl ei bod hi'n bwysig gwneud rhywbeth i godi arian ac ymwybyddiaeth tuag at broblem arall sydd, yn anffodus, hefyd yn cael effaith aruthrol, sef iechyd meddwl.

Fy nod yw codi'r arian mawr sydd ei angen ar gyfer Mind a chodi ymwybyddiaeth o fater iechyd anghofiedig pwysig yn ystod y pandemig hwn."

Cewch gefnogi Tyrone ar ei dudalen JustGiving: <https://www.justgiving.com/fundraising/tyrone-joule>
Pob lwc iddo a gweddill y criw!



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111



trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiath@aol.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Tachwedd 2020

Cyfarfu Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ar lein trwy "Zoom" ar Nos Lun, 30 Tachwedd 2020 ar gyfer y cyfarfod misol gyda deg o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd a'r Clerc, Mr Rab Jones. Dymunodd y Cadeirydd, Cyng. Nia Richards, groeso cynnes i bawb.

Materion Ffyrdd

Cafwyd diweddariad oddi wrth y Cyng. Ellen ap Gwynn a'r Cyng. Nia Richards ar y cyfarfod diweddar i drafod pryderon trigolion ynglŷn â chyflymder traffig ar hyd y ffordd fawr ym mhentref Tal-y-bont a hefyd problemau gyda cheir yn parcio yn rhy agos i'r ysgol. Y gobaith yw gweld y llinellau addas o gwmpas yr ysgol yn cael eu hadnewyddu yn ystod y Gwanwyn ac y bydd yr awdurdodau yn ystyried cais am groesfan addas ger yr ysgol.

Yr Ardd Fach

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyng. Nia Richards, fod y grŵp o wirfoddolwyr wedi gorffen y gwaith o wella'r ardd fach ger y toiledau cyhoeddus yn Nhal-y-bont. Mae Mr John Evans hefyd wedi trwsio'r wal o gwmpas yr ardd. Adroddodd nifer o'r Cynghorwyr eu bod wedi derbyn sylwadau canmoladwy oddi wrth drigolion Tal-y-bont am y gwaith ac estynnwyd diolch yr aelodau i'r gwirfoddolwyr a Mr Evans am eu gwaith caled yn yr ardd.

Sul y Cofio

Cadarnhawyd nad oedd yn bosib cynnal gwasanaeth cyhoeddus eleni ar Sul y Cofio oherwydd y sefyllfa gyda coronafeirws ond cyfarfu chwech o drigolion lleol tu allan i'r Neuadd Goffa ar 8 Tachwedd. Gosodwyd dwy dorch ar y ddwy gofeb yn y Neuadd gan Mr John Morgan a Mr Anthony Southgate a darllenwyd rhestr enwau'r rhai a gollwyd yn y ddau Ryfel Byd gan Mr Ieuan Morgan. Estynnwyd diolch i'r Cyng. Nest Jenkins am archebu'r torchau a gofalu am y trefniadau.

Goleuadau Nadolig

Eglurodd y Clerc fod popeth yn barod ar gyfer y goleuadau Nadolig ar y Neuadd Goffa. Oherwydd y sefyllfa gyda Covid-19 nid oedd yn bosib cynnal y seremoni goleuo arferol eleni ond cadarnhawyd y byddai grŵp bach yn cwrdd ar Nos Iau, 3 Rhagfyr 2020 i roi'r goleuadau ymlaen. Estynnwyd diolch i Mr Ieuan Morgan a Mr Alun Davies am eu gwaith yn paratoi'r goleuadau. Ychwanegodd Cyng. Enoc Jenkins ei fod yn gobeithio y byddai'n bosib cael coeden Nadolig yng ngwaelod y pentref eleni.

Materion Eraill

Mynegwyd pryder fod y blwch ffôn ger Cwmere wedi diflannu er bod y Cyngor wedi derbyn cadarnhad y byddai'r blwch ffôn yma yn cael ei gadw. Cytunwyd hefyd bod y cyngor yn llongyfarch Rhys Norrington-Davies ar ei lwyddiant ar y maes pêl-droed ac yn enwedig ar ennill ei gap cyntaf dros Gymru yn erbyn Bwlgaria yn ystod Mis Hydref.

Cyfarfod Nesaf

Cadarnhaodd y Clerc y bydd cyfarfod misol nesaf y Cyngor ar Nos Lun, 28 Ionawr 2021. Cytunwyd y byddai'r Is-bwyllgor Cyllid yn cwrdd ar Nos Lun, 21 Ionawr 2021 i ystyried ceisiadau am gymorthdaliadau gan fudiadau lleol.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002



Nia Huw (chwith) a Clarissa Richards gyda bagiau Arts Drop Natur wedi pacio i'w ceir yn barod i'w dosbarthu.

Arts Drop Natur yn curo ar ddrysau gyda'i ymateb creadigol i Covid-19

Yn ystod mis Tachwedd mae cannoedd o blant a phobl ifanc bregus yng Ngheredigion a Phowys wedi derbyn pecynnau gweithgaredd fel rhan o brosiect i gefnogi iechyd meddwl a lles tra dan gyfyngiadau Covid-19. Mae Arts Drop Natur - y fenter gyntaf o'i math - yn dosbarthu bagiau o ddeunyddiau creadigol i helpu teuluoedd i fwynhau gweithgareddau hwyliog gartref.

Yn seiliedig ar y rhaglen Arts Drop wreiddiol a gefnogodd filoedd o deuluoedd yn Calderdale, Gorllewin Swydd Efrog yn ystod y cyfnod clo cyntaf, Arts Drop Natur yw'r cyntaf i gysylltu creadigrwydd â natur.

Dywedodd Clarissa Richards, Arbenigydd Addysg ar gyfer Coetir Anian, prosiect addysg ac adfer cynefinoedd: "Cefais fy nghyfareddu gan Arts Drop ac roddem yn teimlo y gallai weithio'n dda iawn i gefnogi teuluoedd yn ein hardal ni. Ar y pryd roddem yn teimlo'n rhwystredig na allem gwrdd â chefnogi'r plant a phobl ifanc trwy redeg ein rhaglenni addysg a lles ar ein tir ger Machynlleth."

Cyn cyfnod y pandemig, roedd Coetir Anian yn cynnal rhaglen hynod lwyddiannus gydag ysgolion lleol lle byddai'r disgyblion yn treulio amser ar dir ger Machynlleth, yn mwynhau gweithgareddau amrywiol.

Bwriad y cynllun yw trosglwyddo 600 o fagiâu i weithwyr allweddol eu dosbarthu i blant a phobl ifanc sydd wedi eu hynysu ac sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan dlodi. Mae'r bagiau, sydd wedi eu creu ar gyfer tri grŵp oedran - 0 i 5, 6 i 11 a 12 i 18 wedi eu pacio gyda llond trol o ddeunyddiau fel llyfrau braslunio, paent, papur lliw, play-doh, glud, chwyddwydr a siswrn. Ond efallai taw elfen bwysicaf bagiau yw'r set bwrpasol o gardiau post sy'n cyflwyno 20 her syml, hwyliog gan gynnwys gwneud draenog neu goron natur, gwehyddu neu fynd am daith droednoeth.

Eisoes dechreuodd Clarissa a'i chydweithiwr yng Nghoetir Anian, Nia Huw, ddosbarthu'r pecynnau i ysgolion, Barnardo's Cymru, canolfan ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid o Syria a'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r ymatebion cychwynnol wedi bod yn hynod bositif.

"Rhan o fwriad y pecynnau yw cynnig syniadau a hyder iddynt am sut i ddefnyddio deunyddiau naturiol a phethau y gallant eu gwneud gyda phlant yn yr awyr agored. Gyda'r bagiau anfonwn neges at blant bregus eu bod yn bwysig ac nad ydyn nhw wedi cael eu hanghofio."

I ddarganfod mwy am Arts Drop ewch i <https://artsdrop.co.uk/>

I ddarganfod mwy am Goetir Anian ewch i <https://www.coetiranian.org/>

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



MONITRO DIOGELWCH 24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda 



STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ



MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

Y Llew Du (Rhan 4)

Dyma'r erthygl olaf ar hanes y Llew Du, Tal-y-bont.

'Erbyn blynyddoedd olaf y 19eg ganrif roedd tenant Y Llew Du yn hysbysebu'n llawn hyder yn y papurau newydd, fel a ganlyn:

BLACK LION. FAMILY AND COMMERCIAL HOTEL, TALYBONT. THIS old established and well-known Hotel is under new management and recently renovated. Parties, Cyclists, Commercial Gentlemen, and Visitors to Taliesin's Grave and "Clettur Valley" will find every accommodation and a Home from Home" here, and have the privilege of fishing in the Gogerddan Lakes, Lerry, and other rivers.

ALES, WINES, SPIRITS, AND CIGARS OF THE FINEST QUALITY. POST HORSES & CONVEYANCES FOR HIRE. PARTIES MET BY ARRANGEMENT AT LLANFIHANGEL, GLANDOVEY, and other Stations. TERMS-MODERATE. DINNERS, TEAS, &c., PROVIDED. s973 R. D. JENKINS, Proprietor

Trosglwyddwyd trwydded y Llew Du i Richard Davies Jenkins (1864-1936) yn 1895. Roedd yn fab i Thomas Jenkins (1840-1918) a Margaret Jenkins (1841-1917), Cwmslaid, Tal-y-bont. Priododd â Mary Jenkins, merch Richard Jenkins (1840-1914), Henhafod a Phlas Penrhyn, Tre'r-ddôl.

Y flwyddyn ganlynol gwnaed cais i adnewyddu trwydded saith niwrnod i'r Llew Du a'r Llew Gwyn. Cafwyd adroddiad am yr achos yn y papur newydd *Y Negesydd* fel hyn:

'Dywedodd Mr H. Hughes ar ran Mr Richard Davies Jenkins (Llew Du) fod trwydded wedi ei chaniatáu i un ohonynt ers 45 mlynedd (1851-Llew Du). Cyflwynodd Mr J. Evans ddwy ddeiseb yn erbyn, wedi eu harwyddo gan bron yr oll o breswylwyr y pentref, oherwydd yr aflonyddwch a wneid gan ddieithriaid ar y Sul ac i'r gwasanaethau crefyddol. Ond pasiwyd i ganiatáu'r drwydded saith niwrnod.'

Efallai bod sylwedd i bryderon trigolion y pentref gan y cafwyd sawl achos yn y llysoedd o fedd-dod. Er enghraifft, ym Mehefin 1904, ceir adroddiad yn y wasg dan y pennawd 'A Violent Toper':

'Yng Ngorsaf Heddlu Aberystwyth ddydd Llun, cyhuddwyd James Conner, a ddisgrifiwyd fel peintiwr, o Lerpwl, o fod wedi meddwi ac yn afreolus yng Ngwesty'r Black Lion, Talybont, ar y 25ain inst. Dywedodd P.S. Jones fod y dyn wedi cael ei daflu allan o'r gwesty, ac yna fe ddaeth yn dreisgar iawn, a chicio'r drws. Anfonwyd ef, gan Mr.



Y Llew Du ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif

David Howell a Major Taunton, i'r carchar am saith diwrnod gyda llafur caled. '

Un a fu'n gweithio yn y Llew Du am gyfnod maith yn yr adeg hon oedd Dafydd Edwards, Railway View. Pan fu farw ddiwedd Mai 1917 yn 78 mlwydd oed, adroddwyd iddo gael ei gyflogi gan y Llew Du am 49 mlynedd, a bod parch mawr iddo yn lleol. Bydd rhai darllenwyr *Papur Pawb* yn cofio rhai o'i wyrion a wyresau: David John (y glo), Emlyn, Muriel (Greenhall), Rosina, Phyllis (Williams) a Gertie.

Yn 1915 hysbysebwyd tenantiaeth dros dro'r Llew Du gan R D Jenkins ac fe ddaeth Mrs Ellen Jones o Lundain yno am gyfnod. Erbyn canol yr 1920au Mr a Mrs Theophilus John oedd y tenantiaid. Ymhlith y tenantiaid a'u dilynodd oedd Mr a Mrs David Lewis Edwards (1886-1969), Llys Etna wedi hynny, a Mr a Mrs Chester. Newidiodd y denantiaeth droeon yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyd nes i Siôn a Catrin Saunders-Jones brynu'r busnes.

Yn y gyfrol *Tafarnau Cymru*, a gyhoeddwyd gan Y Lolfa ddeugain mlynedd yn ôl, awgrymwyd mai lolfar Llew Du oedd 'cynghorfa 'sefydliad' y pentref'. Mae ffurfwedd y Llew Du wedi newid ers hynny ond mae'r croeso yr un mor gynnes.'

Dyma'r olaf yn y gyfres ar dafarnai lleol. Cyfeiriwyd mewn rhifynnau blaenorol o *Bapur Pawb* at y wefan ddifyr a grëwyd gan Nigel Callaghan, *Peint o Hanes Plis* (<http://pint-of-history.wales/cy/explore.php>), sy'n cofnodi holl dafarnai Ceredigion dros y canrifoedd.

Gwyn Jenkins a Hefin Llwyd



Richard Davies Jenkins, gyda'i dad-yng-nghyfraith Richard Jenkins, Henhafod y tu ôl iddo wrth ddrws y dafarn. Ei wraig, Mary Jenkins yw'r wraig yn y sgert ddu a gwyn

Cered ar waith...ZOOOOOOM!!!!!!!

Mae Cered dal ar waith!!! Mewn ffyrdd gwahanol wrth gwrs - ond yr ydym yn parhau i weithredu a gwasanaethu yn y gymuned. Mae'r cyfnod hwn yn bendant wedi agor ein llygaid ni i gyd i ddulliau newydd o gyfathrebu a chysylltu - doedd y rhan fwyaf ohonom ddim yn gwybod beth oedd ystyr y gair Zoom nôl ym mis Mawrth pan ddechreuodd yr epidemig ond erbyn nawr mae'n air cyfarwydd iawn i'r rhan fwyaf ohonom ac mae'r dechnoleg hon wedi bod yn fodd i gynnal pob math o weithgaredd - cyfarfodydd cymdeithasol, cyfarfodydd gwaith, ymarferion cerddorol, darlithoedd, disgos, gigs a pherfformiadau di-ri - y rhain oll yn weithgareddau sydd wedi caniatáu i CERED barhau i weithio gyda'r gymuned.

Gofalwch am eich hunain a chofiwch - os ydych chi angen cymorth neu gyngor i gynnal gweithgareddau Cymraeg o unrhyw fath cysylltwch â ni am sgwrs ar cered@ceredigion.gov.uk

Dan Do

Dyma'r drydedd yn y gyfres ar adeiladau hen a newydd yn yr ardal. Y tro hwn fe gawn ychydig o hanes Banc-y-felin, Tal-y-bont, ar ei newydd wedd, a ddaw'n gartref i Patrick a Sandra Lavery yn y man. Byddem yn falch o dderbyn erthyglau tebyg ar adeiladau'r dalgylch. Byddai'n braf cyhoeddi erthyglau ar hen ffermdai neu dai yn y pentrefi y tu allan i Dal-y-bont. Ewch ati.

Prosiect ymddeol Patrick oedd adnewyddu Banc-y-felin ac fe ddechreuwyd ar y gwaith bron i dair blynedd yn ôl. Adeiladwyd y 'bungalow' yn 1947 a bu fy mam yn byw yno am rai blynedd oedd. Er ei fod wedi'i adeiladu'n dda, roedd angen ei atgyweirio a'i uwchraddio.

Ond mi aeth y cynlluniau braidd yn bellach nag atgyweirio ac uwchraddio ac roedd gan Patrick awydd datgymalu'r to yn gyfan gwbl. Oherwydd ei ddiddordeb mewn hedfan, roedd yn awyddus i gynllunio'r to ar siâp aeroffoil! Iwan Jones oedd y pensaer a wnaeth y lluniadau ar gyfer yr adnewyddu a'r cwmni Tai Dyfi wnaeth y gwaith.

Patrick a Nick Hughes fu'n gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith dymchwel gyda help rhai o bensiynwyr y pentref, fel y gwelir yn y llun. Yn y diwedd dim ond y waliau allanol a mewnlol i lawr grisiau oedd ar ôl. Roedd hyd yn oed y simneiau wedi'u tynnu lawr. Yn ystod y gwaith dymchwel, cawsom dipyn o syndod pan ddaethant ar draws lechen, ar ben wal o dan y to, gydag enwau dau o'r adeiladwyr gwreiddiol wedi'u llofnodi arni. Mae'n dweud 'Richard Morgan, mason 11th October 1947' ar un ochr ac ar yr ochr arall 'Idris Jenkins Cwm Rd Tal-y-bont'. Falle bod rhai yn y pentref yn nabod yr enwau.



Y 'pensiynwyr' yn cael hoes: Mick, Paul, Patrick a Barry



Y Banc-y-felin newydd

Tŷ pen i waered yw'r cynllun ac mae siâp y to yn cael ei ffurfio gan bump o drawstiau 'glulam' crwm a ddaeth o Sweden. Roedd angen craen anferth i'w gosod yn eu lle. Ffrâm bren sydd i'r llawr uchaf ac mae'r to wedi ei wneud o fetel. Ail gylchwyd y llechi a'u defnyddio ar y waliau allanol sy'n wynebu'r de-ddwyrain gan fod y prifwynt ar glaw yn dod o'r cyfeiriad yma. Er mwyn cynnal 'tŷ goddefol' mae 200mm o ddeunydd inswleiddio yn y waliau a 300mm yn y to, system adfer gwres, gwres canolig o dan y llawr a gwydro triphlyg, sy'n ei wneud yn fwy ynni-ffeithlon. Mae'r cadwyni ar flaen y tŷ ar gyfer cludo dŵr (yn lle pibellau dŵr) ac nid i atal y tŷ rhag hedfan i ffwrdd mewn storm!

Mae'r prosiect wedi bod yn hwylus a chyffrous ar y cyfan - ond oherwydd Covid mae'r cynnydd wedi bod yn arafach y flwyddyn yma ac yn golygu bod rhaid archebu bron popeth ar-lein. Rwy'n siŵr fod gwahanol farnau am y cynllun ond mae'n amhosib plesio pawb! Mae'n debyg bod sawl jôc dda yn mynd o gwmpas ynglŷn â'r tŷ ond un o'r rhai glywais yn ddiweddar oedd bod rhywun wedi holi "pryd mae'r lifft sgîo'n agor?"!.....

Sandra Lavery



argraffu da
am bris da

Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Teyrnged

Alun Evans

Trist iawn yw cofnodi bod un o blant Tal-y-bont wedi ein gadael, pan gollwyd Alun Evans, 64 Maesceinion, Waunfawr, Aberystwyth, yr olaf o deulu Rhydfach Uchaf, Tal-y-bont.

Hunodd yn dawel ddydd Sul, 25 Hydref 2020 yn 88 mlwydd oed. Mr a Mrs Richard Evans oedd enw ei rhieni ac roedd ganddo frawd a chwaer, Herbert a Megan, teulu oedd tu hwnt o ffyddlon i Gapel Bethel, Tal-y-bont bob dydd Sul pan oedd y Parchedig Fred Jones yn weinidog arnynt. Bu ei dad yn ddiagon tra bu'n weinidog ym Methel.

Cafodd Alun ei addysg yn Ysgol Tal-y-bont. Gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed ac aeth i weithio i'r Cambrian News. Yno y bu hyd nes iddo gael ei bensiwn, yn fawr ei barch gan bawb. Dai Jones, cyn cyd-weithiwr iddo, gyfansoddodd yr englyn ar ei daflen angladd:

Yn ei wên roedd llawenydd – a grasol
Oedd ei groeso beunydd,
Gŵr di-dwyll gwâr a dedwydd
Oedd Alun ar derfyn dydd.

Pan briododd Alun, Marie o Eglwys-fach aethant i fyw i'r dre gan ymaelodi yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth ac roedd y golled yn enfawr i ni ym Methel, ac o fudd mawr i Seion.

Cafodd wasanaeth parchus iawn yn Seion Ddydd Llun 16eg Tachwedd 2020 am 1.30 o'r gloch yng ngofal ei weinidog, y Parchedig Gwilym Tudur a gafodd ei gynorthwyo gan y Parch Wynne Davies a darllenodd o'r Beibl. Y Parchedig Andrew Lenny roddodd y deyrnged ddi-dwyll i Alun, ac roedd hi'n amlwg ei fod wedi adnabod Alun yn bur dda. Bu Alun yn ddiagon yn Seion tra bu'r Parch Lenny yno'n weinidog. Y Parchedig Terry Edwards roddodd y fendith.

Mae'n cydymdeimlad yn fawr â Marie, Gareth ei fab a'i wraig Eva, a'r wyrion. Gofalodd Marie yn dyner iawn am Alun yn ystod ei flynyddoedd olaf.



*Rhes ôl o'r chwith:
Alun Evans; Gwylfa Evans
Rhes flaen: Gwilym Jenkins;
Herbert Evans; John Owen Ellis*

Cyfarfod rhwng tri Chyngor Cymuned â'r Asiantaeth Gefnffyrdd yn amlygu problemau rhwng Tal-y-bont a Glandyfi



Mae cyfarfod wedi ei gynnal ar-lein i amlygu'r problemau ar Gefnffordd yr A487 rhwng Tal-y-bont a Glandyfi.

Trefnwyd y cyfarfod gan Elin Jones, Aelod o'r Senedd dros Geredigion, a mynychwyd gan Ben Lake AS, Ellen ap Gwynn y Cynghorydd Sir Lleol, cynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned Ceulanamaesmawr, Ysgubor-y-coed a Llangynfelyn a chynrychiolwyr o Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC)

Yn ystod y cyfarfod codwyd nifer o faterion penodol gan gymunedau ar hyd y gefnffordd ac esboniwyd cynlluniau'r ACGCC i wella diogelwch ffordd yng ngogledd Ceredigion drwy nifer o gynlluniau ac adolygiadau. Bu'r cyfarfod hefyd yn fodd i gynrychiolwyr y cymuned i drafod materion yn uniongyrchol gyda rheolwyr rhanbarth cefnffyrdd.

Yn dilyn y cyfarfod, dywedodd Elin Jones AS:

"Pwysleisiodd y cyfarfod hwn yr angen i greu mwy o ymwybyddiaeth ar yrwyrr i arafu wrth iddynt agosáu at bentrefi, a bod angen gwneud hyn drwy osod mesurau arafu traffig wrth ddod i mewn ac allan o bentrefi.

"Mae hyn yn gyffredin i bob pentref ar hyd y ffordd, ond mae angen hefyd gwella palmentydd fel bod yna ymwahanu diogel rhwng cerddwyr a thraffig ffordd.

"Yn Nhal-y-bont rhoddir pwysau am groesfan er mwyn galluogi plant ysgol i groesi y ffordd yn ddiogel."

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Colofn Elin

Mae brwydro yn erbyn yr ail don o glefyd y Coronafeirws wedi parhau i fod yn ganolbwynt yn y Senedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dyna'r rheswm y tu ôl i'r clo byr buodd yn ddiweddar. Rydym i gyd yn aros i weld gwir effaith y clo hwn, ond mae arwyddion cynnar yn awgrymu ei fod wedi arafu lledaeniad Covid yn gyffredinol.

I ni yng Ngheredigion, lle'r oeddem wedi gwneud cymaint yn ystod y don gyntaf i atal y gwaethaf o'r Coronafeirws, rydym wedi cael ein taro gan nifer o achosion, a'r rhai mwyaf difrifol ohonynt yn Aberteifi, ym Mronglais a chartref preswyl Hafan y Waun.

I'r gofawyr hynny a gweithwyr y GIG sy'n gweithio ddydd a nos i ofalu am gleifion a phreswylwyr, rydym yn hynod o ddiolchgar i chi ac yn gwerthfawrogi popeth rydych yn ei wneud. Yn ein meddyliau ni mae'r teuluoedd sydd yn galaru yn dilyn profedigaeth, a hefyd teuluoedd preswylwyr y cartref sydd yn methu ag ymweld â'u hanwyliaid ar adeg sydd mor anodd i bawb yno.

Yn Aberteifi, mae'r Cyngor yn gweithio'n gyflym i ddelio gyda'r clwstwr o achosion sydd yn y gymuned, ac mae'n parhau i olrhain a chysylltu gyda'r rheini sydd wedi bod mewn cysylltiad gyda'r feirws. Mae'r system olrhain a phrofi yn parhau i fod yn arf allweddol i ni yma.

Cawsom newyddion gobeithiol iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf am sawl brechiad. Mae hyn yn dangos bod golau ym mhen draw'r twnnel. O'm cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos gyda'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ceredigion ers dechrau'r pandemig, gwn fod cynlluniau i gyflwyno'r brechlyn ar raddfa fawr yn lleol yn barod. Fodd bynnag, nid yw'n sicr pa mor gyflym y bydd y brechiadau ar gael i ni. Yn y cyfamser, rhaid i ni barhau i fod yn wiliadwrs, cadw ein pellter, a lleihau ein cysylltiadau ag eraill.

Wrth i ni nesáu at y Nadolig, yr wyf yn falch o weld bydd profion ar gael i fyfyrwyr cyn iddynt fynd adref. Rydym yn dal i aros i weld pa gynlluniau bydd yn eu lle ar gyfer yr adeg pan bydd y myfyrwyr yn dychwelyd yn y flwyddyn newydd, a byddaf yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod profion ar gael i fyfyrwyr cyn iddynt ddechrelyd i Geredigion.

Efallai mai'r Coronafeirws yw'r pwnc amlycaf yn fy ngwaith yn y Senedd, a'm gwaith etholaethol, ond mae nifer fawr o faterion eraill yn dal i fod yn nodwedd o'm gwaith bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o'm cyfarfodydd ar Zoom ac yn ddiweddar rwyf wedi cynnal cyfarfodydd yn amrywio o drafod diogelwch ar yr A487 i lifogydd yn Aberteifi a Felinfach, o dai i bobl ifanc i gyfleusterau chwarae plant ym Mhenparcau.

Delio â fy mewnflwch e-bost yw'r rhan brysura f o'm bywyd y dyddiau hyn, ac mae croeso i unrhyw un gysylltu ar elin.jones@senedd.cymru ynghylch unrhyw bwnc.



Y Gair Olaf



Wedi treulio diwrnod da o bysgota yng Nghlywedog ganol Tachwedd, ac wedi dal ambell bysgodyn, wrth i mi gyrraedd y maes parcio a dechrau pacio'r car, cefais dipyn o sioc o weld ffrind i mi, Malcom Edwards, o dde Cymru, yn cwmpo ar ei gefn i'r llawr. Roeddwn yn gwybod yn syth bod rhywbeth mawr o'i le.

Roedd fy ymateb yn ganlyniad i'r holl flynyddoedd o gyrsiau 'Leaders' a Chymorth Cyntaf a wnes i gyda Chlwb Pêl-Droed Ieuencid Tal-y-bont: gwneud y safle yn ddiogel, trio cael ymateb, dim ymateb, dechrau CPR, galw 999 a chael gafael ar y *defibrillator* oedd ar y safle, gosod y tabiau *defibrillator* ar y frest ac wedyn dilyn y cyfarwyddiadau, perfformio cywasgiadau ar y frest i dempo, "Staying Alive" gan Y Bee Gees, a'r *defibrillator* yn rhoi y sioc i'r galon.

Gan weithio'n gyflym ac yn bwylllog, mae trinwyr galwadau 999 yn cymryd manylion hanfodol am gyflwr a lleoliad y claf, gan logio'r wybodaeth ar system ac yn trefnu ambiwlans.

Roedd hi'n teimlo fel oes cyn i'r ambwilans gyrraedd, ac roeddwn yn falch o weld y *paramedics* yn cymryd drosodd. Yn anffodus bu Malcom farw awr yn ddiweddarach, ond cefais sicrwydd gan baramedig i fi wneud popeth y gallen ni i'w helpu.

Mae'n bwysig fod pawb yn ymwybodol bod *defibrillators* ym mhob pentref ac yn gwybod ble mae nhw wedi eu gosod. Byddai mynd ar gwrs Cymorth Cyntaf o fudd i bawb hefyd. Roedd hwn yn brofiad ysgytwol, ac rwy'n gobeithio na fydd fyth yn digwydd eto.

Ceri Jones

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Eglwys Efengylaidd

Aberystwyth

MAE'R NADOLIG YN...?

Agorwch ein

CALENDR ADFENT

Pryd? o'r 1^{af} Rhagfyr tan Ddydd Nadolig

Sut? Dilyn @eglwysfengylaiddaberystwyth

@EgEfAber

ac ar ein gwefan

Cynhelir ein

GWASANAETH CAROLAU

ar-lein ar Ddydd Sul 20^{fed} Rhagfyr am 5.00yp

GWASANAETH DWYIEITHOG

Bore Dydd Nadolig am 10.00

EDRYCHWN YMLAEN YN FAWR AT GAEL EICH CWMNI!

www.eglwysfengylaiddaberystwyth.co.uk / 01970 820 496



Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF
gruffhysjones@googlemail.com

07594 349 354
01970 832 543

Gruffydd Jones
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio

CHWARAEON

Holi Karen Evans

Mae Karen Evans, Nantllain Isaf, Tal-y-bont, wedi dechrau ar ei thymor fel capten Clwb Golff Borth ac Ynyslas. Dyma'r eildro i Karen fod yn gapten gan iddi ymgymryd â'r anrhydedd o fod yn gapten y merched yn gyntaf yn 2008-9, ond yn ôl y drefn newydd, mae'n gweithredu fel cyd-gapten gyda Jeff Evans y tro hwn.

Holwyd Karen gan Papur Pawb am y profiad.

1. Pryd a ble wnaethoch chi ddechrau chwarae golff?

Fe wnes i 'chwarae' fy ngêm gyntaf o golff - fel nofis llwyr - yn Jamaica pan aeth ugain o ffrindiau agos draw yno i ddathlu pen-blwydd 40 oed.

Roeddwn i wedi dychryn. Roedd yn Texas Scramble (cystadleuaeth golff i dimau) a dim ond tair neu bedair gwaith y llwyddais i daro'r bêl yn lân! Ond mi ges i'r byg!

2. Pryd wnaethoch chi ymuno â chlwb Borth ac Ynyslas?

Ymunodd fy ngŵr Brian a minnau â Borth ac Ynyslas fel 'Beginners and Improvers' ym 1998 pan wnaethon ni ymddeol a symud yn ôl i Gymru; daethom yn golffwyr 'handicapped' yn y flwyddyn 2000.



3. Beth yw'r profiad mwyaf cyffrous i chi ei gael ar gwrs golff?

Rwyf wedi cael profiad cofiadwy sawl tro yn ystod fy mlynnyddoedd yn chwarae golff, ond rwy'n credu mai un o'r pethau gorau am golff, ar wahân i chwarae yn Borth ar gwrs lincs hyfryd, yw chwarae golff ar gymaint o wahanol gyrsiau a chwrdd â chymaint o bobl ddiddorol. Y mae llawer ohonynt wedi dod yn ffrindiau golff agos i mi.

4. Beth ddysgoch chi o'ch blwyddyn flaenorol fel capten?

Pan oeddwn yn Gapten yn 2008/9, roeddwn i fel 'cwningen yn wynebu goleuadau car'. Roedd safon fy ngolff yn eitha' cyffredin ac nid oeddwn i wir yn gwybod llawer am unrhyw beth yn ymwneud â chlwb golff. Ond dysgais yn gyflym iawn bod eich aelodau fel arfer yn iawn ac mae'r Capten fel arfer yn anghywir! Nawr, 12 mlynedd yn ddiweddarach, ar ôl derbyn yr anrhydedd am yr eildro, rwyf wedi dysgu llawer mwy am golff a'n haelodau!

5. Beth ydych chi'n gobeithio'i gyflawni'n bersonol ac i'r clwb yn 2020-21?

Mae eleni yn mynd i fod yn flwyddyn anodd iawn arall i Borth ac Ynyslas ac i bob clwb golff arall. Nid ydym yn gallu cymdeithasu yn y '19th Hole' fel yr oeddem yn arfer gwneud ac i ryw raddau yn cymryd yn ganiataol. Y peth pwysicaf yw ceisio sicrhau bod ein haelodau yn cael llawer o hwyl allan ar y cwrs golff a'n bod ni gyd yn glynu gyda'n gilydd yn ein cymuned golff hyfryd yn Borth ac Ynyslas fel y byddwn ni'n barod ar gyfer yr amseroedd mwy arferol - a'r 19eg Twll - a fydd, gobeithio, yn dychwelyd y flwyddyn nesaf. Yr elusen a ddewiswyd gennyf ar gyfer fy mlynnydd yw HAHAFF sy'n darparu cefnogaeth mor anhygoel i'n cymuned leol ar adegau mor anodd i unigolion a'u teuluoedd.

Cletwr

Mae'n glir mai Nadolig eleni fydd yr un rhyfeddaf mewn cof. Dim partis swyddfa, dim partis teuluol mawr, dim canu carolau, dim ond rhywbeth tawel a saff. Gobeithio nad oes neb yn bwriadu mynd ar y daith siopa draddodiadol i Gaerdydd, i'r Amwythig neu Gaerfyrddin. Dros y misoedd diwethaf rydyn ni wedi darganfod (ailddarganfod?) pa mor bwysig yw siopau a busnesau lleol i'n bywydau a'n cymunedau. Felly beth am i chi wneud Nadolig 2020 yn Nadolig lleol? Anghofiwch am siopa ar-lein gyda busnesau mawr: prynwch bopeth sydd ei angen o'ch busnesau lleol. Mae llwyth ohonyn nhw - dim Cletwr yn unig! Prynwch anrhegion wedi eu gwneud yn lleol, o siopau lleol.

Roedd mis Tachwedd yn dawel yn Cletwr, fel pob blwyddyn, ond mae Karen a'i thim wedi bod yn prysur addurno'r caff, a sicrhau bod digon o stoc ar gael ar gyfer y mis nesaf.

Mae rhai digwyddiadau yn y calendr: yn anffodus doedd dim modd cael ein ffair grefftau arferol, ond er mwyn rhoi cyfle i'n crefftwyr lleol, bydd ffair rithiol: un bwrdd yn gwerthu nwyddau gan sawl crefftwr o 12-3yp yn y caff ar 11 a 12 Rhagfyr. Bydd ein tēcawē poblogaidd Syriaidd yn dod nôl ar 22ain o Ragfyr. Manylion archebu ar Facebook. Er tristwch mawr, bydd Siôn Corn yn hunan-ynysu yn ei gartref yn yr Arctic, ac felly yn methu ymweld â Chletwr eleni - ond bydd e'n ymweld â phob tŷ ar Noswyl Nadolig wrth gwrs.

Ond beth all Cletwr gynnig i chi? Wel, popeth bron! Cewch archebu eich cig (o Gigydd Bow Street - busnes lleol arall!) ac eich llysiau i'w codi o Cletwr ar Noswyl Nadolig. Dim angen mynd i'r dre! Mae gennym hefyd stwffin a saws bara cartref, wedi'u gwneud yn Cletwr gan Jane. Mae ffurflenni archeb ar gael yn y siop - rhaid derbyn yr archebion ar gyfer cig erbyn 14 Rhagfyr.

Mae siop gwin Dylanwad yn Nolgellau yn fusnes lleol arall rydyn ni'n ei gefnogi. Nhw sy'n gyfrifol am ein dewis rhagorol o winoedd o safon, ond mae cyfle ichi brynu casys cymysg am brisiau da iawn erbyn y 'Dolig. Manylion ar Facebook a'r wefan.

Ac wrth gwrs mae dewis gwych o anrhegion: hamperi o nwyddau lleol, Cymreig yn cychwyn o £10 i fyny. 3 potel o gwrw Cymreig o'ch dewis chi mewn bocs am £10. Danteithion fel mins peis di-glwten a fegan, bisgedi caws diddorol (a Chaws Eryri i fynd gyda nhw - £12 am 3). Mae teganau i'r plant - pwy all ddweud 'na' wrth ddafad fach fflyffi? Ond os oes gormod o ddewis yn y siop, cewch osgoi'r straen drwy roi tocynnau rhodd Cletwr i'ch ffrindiau a theulu; wedyn maen nhw'n gallu dewis drostynt eu hunain, ac mae'r tocynnau yn ddilys yn y caff hefyd.

Mae'r caff dal ar agor fel arfer, ond wrth gwrs gyda chyfyngiadau yn sgil Covid-19. Mae un peth heb newid: mae 'Nadolig mewn Brechdan' Jane ar gael bob dydd! Dewis o fersiwn cig neu lysieuol. [Nodyn gan Nigel: dydy e ddim yn ginio Dolig go iawn - does dim ysgewyll!]

Llongyfarchiadau hefyd i Sue Peterson, un o'n gwirfoddolwyr, a gododd £40 ar gyfer cronfa cancr Macmillan drwy werthu cacennau'n ddiweddar.

Oriau agor y 'Dolig: Noswyl Nadolig, cau am 4yp. Ar gau dydd Nadolig a dydd Gŵyl San Steffan. Wedyn oriau arferol ond cau am 4yp Nos Galan ac ar gau Dydd Calan.

Mwynhewch y 'Dolig a chadw'ch yn saff. Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yn ymweld â Chletwr dros yr wythnosau nesaf.



Archebwch eich cig o gigyddion lleol, neu ddewis bocs ffrwyth a llysiau. Cewch hyd yn oed archebu stwffin a saws bara enwog Jane, a danteithion pŵb. I gyd i'w godi o Cletwr ar Noswyl Nadolig.

Ffurflenni archeb ar gael yn y Siop.

*Nadolig Llawn
i bawb*